# Natur Drws Nesaf

## Sut i gysylltu â'ch AS

Mae aelod seneddol, neu AS, ar gyfer pob ardal yn y DU. Yr enw ar bob ardal yw ‘etholaeth’. Gallwch gysylltu â'ch AS drwy lythyr neu e-bost.

Cewch weld pwy yw eich AS gyda'r adnodd ar-lein yma. Cliciwch ar y ddolen yma: <https://members.parliament.uk/FindYourMP>. Nodwch eich cod post yn y bocs cyntaf, a chlicio ar y botwm glas, ‘search.’

Y canlyniad fydd enw eich AS. Cliciwch ar hwnnw ac fe welwch chi ei gyfeiriad e-bost a'i gyfeiriad cyswllt ar gyfer llythyrau. Bydd hefyd yn dweud wrthych beth i'w alw.

Gall fod â dau gyfeiriad cyswllt ar gyfer llythyrau. Un yw ei gyfeiriad ‘seneddol’, sy’n golygu’r cyfeiriad yn Llundain. Y llall fydd ei gyfeiriad ‘etholaeth’, sef ei gyfeiriad yn eich ardal leol. Gall y cyfeiriad fod yn swyddfa neu’n gyfeiriad cartref. Gallwch ysgrifennu i'r naill gyfeiriad neu'r llall.

## Mae'r cyngor yma yr un fath ar gyfer negeseuon e-bost ac ar gyfer llythyrau.

Yn gyntaf, gwnewch yn siŵr eich bod yn nodi eich cyfeiriad cartref chi. Mae hyn er mwyn i’ch aelod seneddol wybod eich bod yn byw yn ei ardal.

Dywedwch wrtho pwy ydych chi a pham mae natur yn bwysig i chi. Gallwch chi wneud hyn yn bersonol iawn ond cadwch y cyfan yn fyr. Ceisiwch ysgrifennu tair neu bedair brawddeg.

Yn y paragraff nesaf, rhaid i chi ddweud beth rydych chi eisiau i’ch aelod seneddol ei wneud. Dyma rai syniadau:

- Rydych chi eisiau iddo gefnogi deddfau cryfach
- Rydych chi eisiau iddo gefnogi achos lleol
- Rydych chi eisiau iddo sefyll yn erbyn rhywbeth sy'n digwydd yn lleol, er enghraifft, ffordd drwy warchodfa natur
- Rydych chi eisiau iddo roi cyngor i chi am broblem
- Rydych chi eisiau iddo ddod i ddigwyddiad.

I siarad yn uniongyrchol â'ch AS, gallwch drefnu cyfarfod. Mae pob AS yn cynnal ‘cymorthfeydd’ rheolaidd, sef pan fydd yn eich ardal ac yn gallu siarad â phobl. Bydd angen i chi ysgrifennu llythyr neu e-bostio ei swyddfa i gael gwybod pryd bydd yn rhydd. Neu gallwch ffonio ei swyddfa a siarad â rhywun sy'n gweithio yno.

Jiwbilî Platinwm y Frenhines 2022
Gwnaed yn bosibl gan Cronfa Treftadaeth
Made possible with Heritage Fund
The Queen's Platinum Jubilee 2022
Ymddiriedolaethau Natur Cymru
Wildlife Trusts Wales

# Natur Drws Nesaf

Pan fyddwch yn gofyn am gyfarfod, eglurwch beth rydych eisiau siarad amdano.

Gallwch fynd â rhai nodiadau gyda chi os ydych chi'n poeni am anghofio'r hyn rydych chi eisiau ei ddweud.

Peidiwch â phoeni os nad ydych chi'n arbenigwr. Byddwch yn angerddol am eich achos. A chofiwch dynnu llun a'i roi ar gyfryngau cymdeithasol! Gall annog pobl eraill i gymryd rhan a'ch cefnogi chi.

Gwnaed yn bosibl gan Cronfa Treftadaeth
Made possible with Heritage Fund
Ymddiriedolaethau Natur Cymru
Wildlife Trusts Wales